# Gwaith Comisiwn i Awduron gan Llenyddiaeth Cymru:

## Mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion



Gyda chyfyngiadau'r Coronafeirws yn parhau, mae swyddfeydd Llenyddiaeth Cymru ar gau am y tro, a rhan helaeth o'n gweithgaredd wedi ei ohirio. Serch hynny, mae ein hymrwymiad i **ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru** mor gadarn ag erioed.

Ar 1 Ebrill 2020 fe gyhoeddom rownd gomisiynu lle gwahoddwyd awduron llawrydd i anfon mynegiant o ddiddordeb i ddyfeisio a chreu cynnwys a phrosiectau digidol gwreiddiol i gynulleidfaoedd. Rydym yn falch o gyhoeddi ail rownd gomisiynu mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru. Prif ffocws yr ail rownd gomisiynu yw **iechyd a llesiant**; serch hynny, mae prosiectau a chynnwys digidol eraill gydag elfen gyfranogi gref hefyd yn gymwys.

Rydym yn ymwybodol iawn ein bod yn wynebu cyfnod eithriadol o bryderus, a hynny yn nhermau ein hiechyd a'n llesiant meddyliol a chorfforol fel unigolion a chymunedau, ac yn arbennig felly i'r rheini sy'n dibynnu ar incwm llawrydd. Pwrpas yr alwad agored hon yw galluogi **awduron llawrydd i barhau i dderbyn gwaith â thâl** yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd. Yn ogystal, bydd y gwaith a gomisiynir yn ceisio mynd i'r afael â heriau llesiant trwy ddefnyddio llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol; ac yn **diddanu, ysbrydoli ac addysgu cynulleidfaoedd creadigol, egin awduron, plant a chyfranogwyr** ledled Cymru.

Rydym yn annog awduron i fod yn greadigol ac awgrymu cynnyrch a phrosiectau fydd, yn eu tyb nhw, yn fuddiol a gwerthfawr. Serch hynny fe welwch yn yr adran **Cyngor a Chwestiynau**

**Cyffredin** tua diwedd y ddogfen hon, wybodaeth all eich cynorthwyo wrth ddatblygu eich Mynegiant o ddiddordeb. Mae'r wybodaeth yn cynnwys nodau ac amcanion yr alwad hon; argymhellion am y gynulleidfa darged; awgrymiadau o gynnyrch/prosiectau a llwyfannau amrywiol; a gwybodaeth am lenyddiaeth a iechyd a llesiant.

**Dyddiad Cau i Fynegi Diddordeb:**
**12.00pm (hanner dydd) ar ddydd Llun 18 Mai 2020**

## Beth sydd ar gael?

Mae 10 comisiwn gwerth £500 ar gael.

Gall awduron wneud cais am un comisiwn yn unig. Gellir gwneud cais fel unigolyn, mewn parau, neu fel grŵp.

## Meini Prawf

Mae unrhyw **awduron llawrydd sy'n byw yng Nghymru** yn gymwys ar gyfer y cyfle hwn, ag eithrio'r canlynol:

- Y rheiny sydd wedi derbyn ffi gan Llenyddiaeth Cymru yn y ddeufis diwethaf.
- Y rheiny sy'n derbyn unrhyw nawdd neu ffi reolaidd gan Llenyddiaeth Cymru.

Bydd y panel dethol yn ystyried nifer o agweddau yn ystod y broses o wneud penderfyniad, gan gynnwys blaenoriaethu'r rheiny sy'n uniaethu gydag o leiaf un o'r Nodweddion y Cleientiaid a Dargedir (unigolion o gefndiroedd incwm isel; unigolion o gefndiroedd BAME; unigolion ag anabledd neu salwch (meddyliol a chorfforol)); buddsoddi mewn potensial yn hytrach na phrofiad; a chydbwysedd ieithyddol a daearyddol.

Mae modd darllen Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru yma. Rydym yn argymell i chi ei ddarllen cyn cyflwyno eich cais.

*Ceir rhagor o wybodaeth am y meini prawf yn yr adran Cwestiynau Cyffredin isod.*

## Sut i wneud cais

I fynegi diddordeb yn y cyfle hwn, cwblhewch y ffurflen gais hon (os hoffech chi ddarllen y ffurflen gais cyn dechrau ei llenwi arlein, gallwch wneud hynny yma). Gofynnir i chi uwchlwytho Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (sydd ar gael yma) gyda'r ffurflen gais.

Mae croeso i chi anfon neges i gadarnhau eich mynegiant o ddiddordeb neu i wneud ymholiad trwy e-bostio post@llenyddiaethcymru.org, gyda'r canlynol fel pwnc i'r neges: Gweithiau Comisiwn Mai 2020 - [Eich enw].

**Rhaid cyflwyno eich Mynegiant o Ddiddordeb erbyn:**
**12.00pm (hanner dydd) ar ddydd Llun 18 Mai**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Caiff mynegiannau diddordeb llwyddiannus eu **dethol a'u cadarnhau gyda'r awduron ar ddydd Gwener 22 Mai**. Ar y pwynt hwn byddwn yn cadarnhau'r swm terfynol a gynigir, a byddwn yn cadarnhau dyddiad cwblhau gyda phob awdur. Caiff awduron eu talu ymlaen llaw yn dilyn derbyn cytundeb wedi ei arwyddo.

*Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Gweler www.llenyddiaethcymru.org am ragor o wybodaeth.*

*Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yw'r corff meddygol ac addysgiadol ar gyfer seicoleg, sy'n hyrwyddo rhagoriaeth mewn gofal iechyd meddwl. Gweler www.rcpsych.ac.uk/ coleg-cymraeg am ragor o wybodaeth.*

## Cyngor a Chwestiynau Cyffredin

Nodau ac Amcanion:

- I ddarparu gwaith â thâl i awduron llawrydd mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd o ganlyniad i haint Coronafeirws
- I ddarparu gweithgareddau a/neu gynnwys difyr a allai fod o fudd i unigolion a chymunedau yng Nghymru
- I ddiddanu a difyrru cleientiaid a chynulleidfaoedd gyda chynnyrch llenyddol trawiadol
- I ddarparu cyfleoedd i egin awduron a chynulleidfaoedd creadigol ddatblygu neu ddysgu sgiliau newydd (yn absenoldeb gweithgaredd arferol Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys gwaith Cyfranogi a chyrsiau Tŷ Newydd)
- I ddefnyddio llwyfannau digidol i ddod â chynulleidfaoedd creadigol a chymunedau ynghyd trwy lenyddiaeth

Argymhellion ar y cynulleidfaoedd i'w targedu:

- Y rheiny sy'n uniaethu gydag o leiaf un o'r nodweddion canlynol: unigolion o gefndiroedd incwm isel; unigolion o gefndiroedd BAME; unigolion ag anabledd neu salwch (meddyliol a chorfforol)
- Grwpiau a allai elwa o weithgaredd llenyddol i helpu eu iechyd a llesiant, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bobl sy'n wynebu heriau iechyd meddwl penodol megis unigrwydd a galar; gofalwyr; pobl hŷn; y rheiny sy'n byw gyda dibyniaeth.
- Y rheiny sy'n darllen, gwylio ac yn mwynhau llenyddiaeth (Cynulleidfaoedd Creadigol)
- Cyfranogwyr oedd wedi archebu lle ar gyrsiau Tŷ Newydd sydd wedi eu gohirio, a mynychwyr cyrsiau yn y gorffennol
- Unigolion sy'n hunan-ynysu ac yn chwilio am ddulliau i gyffroi'r meddwl
- Plant a phobl ifanc
- Egin Awduron

Awgrymiadau o gynnyrch a llwyfannau:

- Cyrsiau ysgrifennu creadigol / tiwtorialau ar-lein
- Gweithgareddau cyfranogi / gemau / cynnwys i brocio'r awen ar gyfer grŵp penodol
- Gweithdai digidol caeedig i grwpiau bregus
- Cyfres o bodlediadau ar lenyddiaeth / ysgrifennu creadigol
- Adnoddau ysgrifenedig neu fideo sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i awduron (e.e. sut i gael asiant, hunan-hyrwyddo, sut i sefydlu a rhedeg sgwad sgwennu)
- Dyfeisio a rhedeg ymgyrch digidol sy'n ymgysylltu ag awduron a chynulleidfaoedd
- Dyfeisio a gweinyddu grŵp rhwydweithio digidol i awduron.

### Llenyddiaeth a Iechyd a Llesiant

Caiff llenyddiaeth ei defnyddio yn aml fel therapi, ac yn feddyginiaeth i atal, lliniaru a gwella rhai afiechydon ac anableddau. Sylwyd ar ystod o ganlyniadau lles amlwg mewn treialon clinigol lle y cynigiwyd ysgrifennu a darllen creadigol ar bresgripsiwn. Roedd y canlyniadau yn cynnwys llai o symptomau iselder, llai o risg dementia a phobl yn gallu disgwyl byw'n hwy. Mae ystod llawn effaith posibl llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol yn yn cyfrannu at wella lles unigolion, ein cymdeithas, ein heconomi a'n diwylliant. Mae cryfhau hunanhyder, sy'n arwain at fwy o ymdeimlad o hunanwerth a hunaniaeth, yn gamau hollbwysig tuag at wneud pobl yn fwy cyflogadwy, gwella'u symudedd cymdeithasol a bywiocáu ein naratif diwylliannol cenedlaethol.

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw pwrpas y gweithiau comisiwn hyn?**

Mae dau brif bwrpas i'r gweithiau comisiwn hyn. Yn gyntaf, i ddarparu **gwaith â thâl i awduron llawrydd** sydd wedi colli llawer o'u hincwm oherwydd fod gweithgareddau wedi eu gohirio neu eu canslo yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Yn ail, i fynd i'r afael â heriau llesiant trwy ddefnyddio llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol; a **diddanu, ysbrydoli ac addysgu cynulleidfaoedd creadigol, egin awduron, plant a chyfranogwyr** ledled Cymru.

**Faint o ffi sydd ar gael?**

Mae pob comisiwn yn ffi penodedig o £500, yn cynnwys TAW ac unrhyw dreuliau. Mae 10 comisiwn ar gael.

**Pwy all wneud cais am gomisiwn?**

Unrhyw awdur llawrydd sy'n byw yng Nghymru, ac eithrio'r rheiny a restrir yn yr adran **Pwy sydd ddim yn gymwys?** isod.

Mae croeso i'r rheiny sydd heb gofrestru'n Hunan Gyflogedig, sydd heb incwm rheolaidd ar hyn o bryd, ac nad ydynt mewn addysg llawn amser gyflwyno cais hefyd.

**Pwy sydd ddim yn gymwys?**

- Awduron sydd wedi derbyn ffi gan Llenyddiaeth Cymru am waith a gytundebwyd i ddigwydd rhwng 15 Mawrth 2020 a 15 Mehefin 2020. Mae'r ffioedd hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - Ysgoloriaethau i Awduron
    - Ffi Cynllun Nawdd Llên er Lles
    - Ffi tiwtor Tŷ Newydd (gan gynnwys gweithdai arlein neu ffi canslo cwrs)
- Y rheiny sydd yn derbyn ffi neu nawdd rheolaidd gan Llenyddiaeth Cymru, er enghraifft Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales.

**Pa fath o brosiect / cynnwys digidol sy'n gymwys?**

Rydym yn chwilio am brosiectau / gynnwys digidol a fydd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau trwy roi cyfle iddynt gymryd rhan mewn llenyddiaeth. Am ragor o wybodaeth am ein piler gweithgaredd Cyfranogi, gweler ein Cynllun Strategol ar gyfer 2019-2022.

Y ceisiadau sydd fwyaf tebygol o gael ei comisiynu yw'r rheiny sy'n dangos ystyriaeth glir o'r **Nodau a'r Amcanion** a'r **Argymhellion ar y cynulleidfaoedd i'w targedu** y cyfeirir atynt yn yr adran **Cyngor** uchod.

**Beth sydd ddim yn gymwys?**

- Prosiectau neu gynnwys personol, megis ysgrifennu nofel/stori fer/erthygl.
- Prosiectau neu gynnwys heb elfen ddigidol yn ganolog iddynt.
- Prosiectau neu gynnwys sydd heb elfen gyfranogol neu sydd heb eu creu ar gyfer cynulleidfa.
- Prosiectau neu gynnwys sy'n rhy debyg i rai sydd wedi eu cynnal eisoes, neu sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, boed hynny gan Llenyddiaeth Cymru, sefydliadau eraill yn y sectorau llenyddiaeth neu gelfyddydau yng Nghymru, neu yn annibynnol gan awduron ac ymarferwyr llenyddol.
- Prosiectau neu gynnwys heb lenyddiaeth a/neu ysgrifennu creadigol yn ganolog iddynt.

**Sut mae'r ceisiadau'n cael eu barnu?**

Mae'r panel dethol yn cynnwys unigolion o'r ddau sefydliad sy'n ariannu'r gweithiau comisiwn hyn. Mae'r panel yn cynnwys unigolion o wahanol gefndiroedd ieithyddol ac ethnig sydd ag arbenigeddau amrywiol o fewn y sefydliadau gan gynnwys cyfathrebu, cyfranogi, datblygu awduron, monitro a gwerthuso, iechyd a llesiant, a cynrychiolaeth a chydraddoldeb.

Caiff pob cais ei gyflwyno yn ddienw i'r panel, a fydd yn asesu'r cyfan ar sail cryfder neu botensial y prosiectau neu gynnwys a gynigir.

**Os nad ydw i'n gymwys ar gyfer y cyfle hwn, neu os nad yw'r cynnwys / prosiect sydd gen i mewn golwg yn gweddu, pa gefnogaeth arall all Llenyddiaeth Cymru neu sefydliad arall ei gynnig?**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi rhagor o gyfleoedd Datblygu Awduron yn yr haf.

Yn y cyfamser, i'r rheiny sydd angen cefnogaeth ar fyrder, gall y sefydliadau isod fod o ddefnydd:

Cyngor Celfyddydau Cymru:

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyhoeddi ei gefnogaeth i unigolion trwy ei Gronfa ymateb brys i unigolion. Mae'r gronfa'n cynnwys arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, Tŷ Cerdd, Llenyddiaeth Cymru a Sefydliad Freelands. Dyddiad cau yr ail rownd o nawdd yw dydd Mercher 6 Mai 2020: https://arts.wales/cy/cronfa-ymateb-brys-i-unigolion

The Society of Authors

Mae nifer o sefydliadau wedi cyfrannu adnoddau ariannol i'r Gronfa Argyfwng Awduron er mwyn cefnogi awduron sydd wedi eu heffeithio'n ariannol gan yr argyfwng Coronafeirws. https://www.societyofauthors.org/Grants/contingency-funds

Royal Literary Fund

Mae'r Royal Literary Fund yn elusen sydd wedi helpu awduron ers 1790. Mae'n darparu grantiau a phensiynau i awduron mewn anawsterau ariannol: https://www.rlf.org.uk/